



Comisiynydd y
Gymraeg
Welsh Language
Commissioner

Adolygiad barnwrol ac achosion cyfreithiol eraill

[Adrannau 8-10 Mesur y Gymraeg \(Cymru\) 2011](#)

Fframwaith cychwyn neu ymyrryd mewn achos cyfreithiol a darparu cymorth cyfreithiol

[Dyddiad cyhoeddi](#): 1 Rhagfyr 2015

1 Cefndir

Prif nod Comisiynydd y Gymraeg, sefydliad annibynnol a grëwyd yn unol â Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011 (Mesur y Gymraeg), yw hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Gwneir hyn drwy ddwyn sylw i'r ffaith bod statws swyddogol i'r Gymraeg yng Nghymru a thrwy osod safonau ar sefydliadau. Bydd hyn, yn ei dro, yn arwain at sefydlu hawliau i siaradwyr Cymraeg.

Bydd dwy egwyddor yn sail i'r gwaith:

- Ni ddylid trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg yng Nghymru
- Dylai personau yng Nghymru allu byw eu bywydau drwy gyfrwng y Gymraeg os ydynt yn dymuno gwneud hynny

2 Pwrpas

- 2.1 Mae'r fframwaith hwn yn egluro pa bryd a sut yr arfaetha Comisiynydd y Gymraeg (y Comisiynydd) arfer y pwerau sydd ganddo o dan adrannau 8-10 Mesur y Gymraeg mewn cysylltiad â chychwyn neu ymyrryd mewn achos cyfreithiol a darparu cymorth cyfreithiol.
- 2.2 Er nad ydynt yn niferus, dyfarnwyd ar achosion o bwys sydd wedi bod o les i sefyllfa'r iaith Gymraeg megis achos *Boylan v Cyngor Sir Ynys Môn*¹; *Gwynedd v Jones a Doyle*² ac yn fwy diweddar Comisiynydd y Gymraeg v *Cynilion a Buddsoddiadau Cenedlaethol*³.
- 2.3 Mae adrannau 8-10 Mesur y Gymraeg yn caniatáu i Gomisiynydd y Gymraeg gychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr neu ymyrryd mewn achos os yw mater yn berthnasol i waith y Comisiynydd. Gellir hefyd darparu cymorth i unigolion gan gynnwys cymorth cyfreithiol. Mae'r fframwaith hwn yn gyson â Mesur y Gymraeg a Chynllun Strategol y Comisiynydd ble nodir:

“Bydd y Comisiynydd yn defnyddio'r pŵer hwn os bydd o'r farn bod mater yn un strategol bwysig i hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg; lle nad oes dewis arall o gyrraedd yr un nod ac os yw'r achos yn un o fudd cyhoeddus amlwg.”

3 Hybu a Hwyluso defnyddio'r Gymraeg

- 3.1 Mae gan y Comisiynydd amrediad o bwerau at ei ddefnydd er mwyn cyflawni ei brif nod o hybu a hwyluso defnyddio'r Gymraeg. Dim ond un cyfrwng o blith ei bwerau a'i swyddogaethau yw'r gallu i ddwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol neu roi cymorth i unigolion. Ni fydd y Comisiynydd yn defnyddio pwerau adran 8-10 lle bo ganddo bwerau gweinyddol a bennwyd yn y Mesur at ddibenion neilltuol e.e. os bydd person yn methu cadw at Safonau'r Gymraeg bydd y Comisiynydd yn arfer ei bwerau gorfodi. Bydd y Comisiynydd yn ystyried a dewis y cyfrwng gorau i fynd ar drywydd datrysiadau achos wrth achos.

4 Y cyd-destun deddfwriaethol

4.1 Wrth arfer pwerau adran 8-10 rhaid i Gomisiynydd y Gymraeg gadw at ofynion y darpariaethau canlynol:

8. Adolygiad barnwrol ac achosion cyfreithiol eraill

- (1) Caiff y Comisiynydd gychwyn achos cyfreithiol yng Nghymru a Lloegr, neu ymyrryd mewn achos o'r fath, os yw'n ymddangos i'r Comisiynydd fod yr achos yn un sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.
- (2) O ran isadran (1)
 - (a) nid yw'n creu sail i achos, a
 - (b) mae yn ddarostyngedig i unrhyw derfyn neu gyfyngiad a osodir yn rhinwedd deddfiad neu yn unol ag ymarferiad llys.
- (3) Yn yr adran hon, mae'r ymadrodd "achos cyfreithiol" yn cynnwys achosion gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys, ond nid yw wedi ei gyfyngu i hynny.

9. Cymorth cyfreithiol

- (1) Caiff y Comisiynydd ddarparu cymorth i unigolyn os yw'r person hwnnw yn barti, neu os gall y person hwnnw ddod yn barti, i achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl yng Nghymru a Lloegr sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.
- (2) Nid yw'r adran hon yn effeithio ar unrhyw gyfyngiad a osodir mewn cysylltiad â chynrychiolaeth—
 - (a) yn rhinwedd deddfiad, neu
 - (b) yn unol ag ymarferiad llys neu dribiwnlys.
- (3) Y Comisiynydd sydd i ddyfarnu, at ddibenion yr adran hon, a oes achos cyfreithiol posibl sy'n berthnasol i fater y mae gan y Comisiynydd swyddogaeth mewn cysylltiad ag ef.
- (4) Yn yr adran hon mae "achos cyfreithiol" ("legal proceedings") yn cynnwys achos gerbron unrhyw lys neu dribiwnlys, ond heb fod yn gyfyngedig i hynny; mae "cymorth" ("assistance") yn cynnwys y pethau a ganlyn, ond heb fod yn gyfyngedig iddynt—
 - (a) cyngor cyfreithiol;
 - (b) cynrychiolaeth gyfreithiol;
 - (c) cyfleusterau i setlo anghydfod.

10. Cymorth cyfreithiol: costau

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys—
 - a) os yw'r Comisiynydd wedi cynorthwyo unigolyn o dan adran 9 mewn perthynas ag achos, a
 - b) os bydd yr unigolyn hwnnw'n ennill yr hawl i gael rhywfaint neu'r cyfan o'i gostau yn yr achos (boed yn rhinwedd dyfarniad neu yn rhinwedd cytundeb).
- (2) ran treuliau'r Comisiynydd wrth ddarparu'r cymorth—
 - a) cânt eu codi ar symiau a delir i'r unigolyn ar ffurf costau, a
 - b) gellir eu gorfodi fel dyled sy'n ddyladwy i'r Comisiynydd.
- (3) Mae gofyniad i dalu arian i'r Comisiynydd o dan is-adran (2) yn dod islaw gofyniad a osodir yn rhinwedd adran 11(4)(f) o Ddeddf Mynediad at Gyfiawnder 1999 (adennill costau mewn achosion a gyllidir).
- (4) At ddibenion is-adran (2), mae treuliau'r Comisiynydd i'w cyfrifo'n unol â darpariaeth a wneir (os o gwbl) gan Weinidogion Cymru at y diben hwnnw drwy reoliadau.
- (5) Caiff rheoliadau a wneir o dan is-adran (4) ddarparu, ymhlith pethau eraill, ar gyfer dyrannu gwariant a dynnir gan y Comisiynydd—
 - a) yn rhannol at un diben ac yn rhannol at ddiben arall, neu
 - b) at ddibenion cyffredinol.

- 4.2 Wrth arfer ei bwerau o dan adrannau 8-10 bydd yn rhaid i'r Comisiynydd ystyried yn ogystal unrhyw ofynion sy'n codi o'r gyfundrefn gyfreithiol ehangach, e.e. rheolau llysoedd a therfynau amser ar gyfer dwyn achosion. Bydd y Comisiynydd yn gweithredu o fewn terfynau amser y llys a byddai'n rhaid bod rheswm da cyn y byddai'n gofyn caniatâd y llys i wrando achos y tu allan i'r terfynau amser gosodedig.

Rheolau Gweithdrefnau Gwaith Teulu

- 4.3 Ar 30 Ebrill 2020 fe gyflwynwyd a derbyniwyd gwelliant i PD12G (Cyfathrebu a Gwybodaeth) a PD14E (Cyfathrebu a Gwybodaeth yn ymwneud â thrafodion) er mwyn caniatáu datgelu gwybodaeth o drafodion teuluol sydd yn cael eu cynnal yn breifat i Gomisiynydd y Gymraeg er mwyn cefnogi'r Comisiynydd i benderfynu i arfer ei bwerau, heb i'r datgeliad hwnnw fod yn ddirmyg llys posibl.

5 Ystyried cychwyn neu ymyrryd mewn achosion cyfreithiol a rhoi cymorth cyfreithiol i unigolion

- 5.1 Pan ddaw'r Comisiynydd yn ymwybodol o achos cyfreithiol gwirioneddol neu achos cyfreithiol posibl bydd yn rhoi ystyriaeth i gymryd camau neu beidio. Bydd y Comisiynydd yn rhoi ystyriaeth lawn i bob achos ddaw i'w sylw'n ddiwahân.
- 5.2 Cyn cymryd unrhyw gamau ffurfiol neu wneud penderfyniad terfynol mewn perthynas ag achos sydd o dan ystyriaeth bydd y Comisiynydd yn arferol yn ceisio cyngor priodol ac yn rhoi sylw i'r cyngor hwnnw.
- 5.3 Cyn gofyn cyngor cyfreithiol bydd y Comisiynydd fel arfer yn cyfeirio at yr ystyriaethau canlynol i'w chynorthwyo wrth iddi benderfynu a ddylai gychwyn, ymyrryd neu gynnig cymorth cyfreithiol mewn achos cyfreithiol penodol:

Cychwyn achos

- tebygolrwydd llwyddiant mewn achos
- tebygolrwydd setliad
- yr adnoddau sydd eu hangen
- i ba raddau mai Comisiynydd y Gymraeg yw'r sefydliad gorau i ddelio gyda'r achos
- y dystiolaeth sydd ar gael i dystio budd dyfarniad cadarnhaol
- a oes dulliau eraill o symud mater yn ei flaen
- a oes ymgais wedi ei wneud i geisio cael datrysiaid
- y tebygolrwydd y byddai llys yn caniatáu cychwyn achos
- y graddau y bo'r achos yn un sy'n cynnig ei hun i gael ei ddyfarnu gan lys
- y byddai canlyniad cadarnhaol yn sefydlu cynsail strategol bwysig i'r Gymraeg

Ymyrryd mewn achos

Ffactorau atodol ar gyfer ystyried ymyrryd mewn achos cyfreithiol:

- y graddau y mae Comisiynydd y Gymraeg yn niwtral neu yn gallu cyfrannu gwybodaeth arbenigol
- y byddai eglurder ar bwynt o gyfraith yn arwain at newidiadau systemig sydd y tu hwnt i ffeithiau'r achos
- y gallu i adnabod parti arall sy'n ymyrryd
- bod y dystiolaeth a'r gynrychiolaeth arfaethedig yn ymwneud â materion sy'n hanfodol i'r llys eu hystyried er mwyn dod i benderfyniad ac o gymorth sylweddol i'r llys

Rhoi cymorth cyfreithiol

Wrth ystyried rhoi cymorth cyfreithiol ac yn ychwanegol at y ffactorau uchod bydd y Comisiynydd hefyd yn ystyried y canlynol:

- cryfder yr achos
- tebygolrwydd y byddai'r achos yn mynd rhagddo heb gefnogaeth y Comisiynydd
- y math o gymorth a geisir

6 Derbyn ceisiadau am gymorth gan unigolyn

6.1 Mae'r Comisiynydd yn derbyn ceisiadau am gymorth cyfreithiol. Caiff pob cais ei drin yn gyfrinachol. Dylid eu cyfeirio at sylw Comisiynydd y Gymraeg.

Manylion Cyswllt:

- Ffôn: 0845 6033 221
- E-bost: post@comisiynyddygybraeg.org
- Gwefan: comisiynyddygybraeg.org

Comisiynydd y Gymraeg
Siambrau'r Farchnad 5–
7 Heol Eglwys Fair
Caerdydd CF10 1AT